# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **24 CHWEFROR 2026** |
| **PWNC:** | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 3 2025/26** |
| **DEILYDD(ION) PPORTFFOLIO:** | **CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER**<br><br>**CYNG CARWYN JONES - DEILYDD PORTFFOLIO TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL** |
| **PENNAETH GWASANAETH / CYFARWYDDWR:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**<br>(est. 2601) |
| **AWDUR YR ADRODDIAD :**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **ŠÁRKA TIMAROVÁ**<br><br>SarkaTimarova@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 3 2025/26.
**(ii)** Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26.

**2. Cefndir**

**(i)** Gosodwyd y gyllideb refeniw gyda gwarged a gynlluniwyd o £6,291k.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2025/26 yw £24,871k. Mae cyllideb cyllid grant gwerth £8,740k yn gostwng y gyllideb net i £16,131k.

**(iii)** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £9,840k. Bydd £6,820k yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT, a bydd y balans o £3,019k yn cael ei gyllido gan fenthyca allanol.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo cyllid o'i gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Rhagfyr 2025.

**4. Trosolwg**

**4.1** Mae sefyllfa gwarged / diffyg refeniw y CRT ar ddiwedd chwarter 3 £715k yn well na'r gyllideb a broffiliwyd. Rhagwelir tanwariant o £546k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae mwy o fanylion wedi'u cynnwys yn adrannau 5 i 8 isod ac yn Atodiad A.

**4.2** Ychwanegwyd £350k at y gyllideb gwariant cyfalaf, a'r cyfanswm bellach yw £24,871k. Rhagwelir tanwariant o £864k ar ddiwedd y flwyddyn, fel yr esbonnir yn adran 9 isod ac yn Atodiadau B a C. Mae incwm grantiau wedi gostwng i £8,740k, ac mae disgwyl i'r cyllid gael ei wario'n llawn.

**4.3** Mae'r diffyg a ragwelir (trwy gyfuno refeniw a chyfalaf) bellach yn £8,436k, £1,403k yn llai na'r gyllideb.

## 5. Incwm

**5.1** Ar ddiwedd chwarter 3, roedd incwm rhenti £132k yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd. Y rheswm pennaf am y diffyg yn yr incwm rhenti yw nad oedd eiddo newydd wedi'u hychwanegu at y stoc tai y gellir eu gosod yn unol â'r amserlen. Rhagwelir y bydd incwm rhenti £56k yn llai na'r gyllideb oherwydd yr oedi. Ar yr un pryd, rhagwelir y bydd cynnydd mewn incwm ar gyfer rhai ffioedd, taliadau a chyfraniadau eraill yn gwrthbwyso'r diffyg hwn. Y canlyniad net fydd £18k o incwm ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn.

## 6. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

**6.1** Ar ddiwedd chwarter 3, roedd tanwariant o £344k ar waith trwsio a chynnal a chadw. Gwariant ar dai gwag pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo sydd i gyfrif am hyn yn bennaf. Roedd y gwariant wedi cyrraedd y trothwy cyfalafu a'i symud yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer SATC (Safon Ansawdd Tai Cymru). Bydd rhai o'r costau hyn yn cael eu hailasesu yn ystod y flwyddyn a'u symud yn erbyn cyllideb gyfalaf SATC. Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld gorwariant o £30k yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd bod disgwyl i wariant ar isgontractwyr gynyddu, a bydd y gwariant hwn yn aros fel gwariant refeniw ar ddiwedd y flwyddyn.

**6.2** Mae tanwariant o £47k ar wasanaethau a rennir a gwasanaethau yr ailgodir tâl amdanynt, sy'n cynnwys gwariant ar ardaloedd cymunol ac ardaloedd a rennir, torri glaswellt ac ati. Ar hyn o bryd, mae yna nifer o wahaniaethau amseru ddylai gael eu hunioni erbyn diwedd y flwyddyn, ac mae tanwariant o £24k yn cael ei ragweld.

**6.3** Mae gwariant ar staff gweithredol £248k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 3, oherwydd cyfuniad o danwariant ar y gyllideb ar gyfer dyfarniadau cyflog a swyddi gweigion. Mae gorbenion a gwariant arall £52k yn uwch na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd costau llogi sgipiau, gwariant ar gyfarpar a gorbenion gweithredol.

## 7. Gwariant ar Oruchwylio a Rheoli

**7.1** Ar ddiwedd chwarter 3, roedd gwariant ar oruchwylio a rheoli £215k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Rydym yn rhagweld y bydd swyddi gweigion ac addasiadau sylweddol yn y cyfraniadau pensiwn yn creu tanwariant o tua £410k yn erbyn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

## 8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

**8.1** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau gwariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sydd yn ffurfio rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar ddiwedd chwarter 3, rydym yn rhagweld gorwariant bychan o £7k ar ddiwedd y flwyddyn.

## 9. Gwariant Cyfalaf

**9.1** Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2025/26 yw £24,871k, ac mae'r gyllideb cyllid grant yn £8,740k.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r rhagolygon mewn perthynas â chyllid grant:-

| Ffynhonnell | Rhagolwg Chwarter 3 £ |
|---|---:|
| Cronfa Tai â Gofal (HCF) | 568,648 |
| Cronfa Gofal Integredig (ICF) | 375,000 |
| Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol | 1,035,665 |
| Grant Tai Cymdeithasol (SHG) | 1,235,012 |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA) | 2,690,000 |
| Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2025/26 | 2,775,712 |
| Arall | 60,000 |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | **8,740,037** |

**9.2** Gwariant SATC – Roedd y gyllideb ddiwygiedig o £5,483k yn dyrannu swm o £1,483k i fynd i'r afael â gwaith SATC a wrthodwyd gan denantiaid ac elfennau cyfalaf sy'n cael eu huwchraddio pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo, megis gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd ac ail-weirio systemau wrth iddynt ddod i ddiwedd eu hoes. Mae gwerth £1,056k o waith ar eiddo gwag a gwblhawyd gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) wedi cael ei gyfalafu hyd at ddiwedd chwarter 3, ac mae disgwyl i symiau pellach gael eu cyfalafu yn ystod chwarter 4. Roedd y gyllideb hefyd yn neilltuo £4,000k tuag at Flwyddyn 2 y rhaglen 5 mlynedd ar gyfer adnewyddu ceginau sydd bellach dros 15 oed. Yn ôl y Gwasanaethau Tai, roedd y ddau gontractwr a benodwyd wedi parhau i berfformio'n dda yn ystod chwarter 3, a gwariwyd swm o £3,795k. Mae'r ddau gontractwr hefyd yn gosod ceginau newydd ac yn gwneud gwaith yn gysylltiedig â SATC yn ôl y gofyn, pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo. Mae'r ddau gontractwr wedi gwneud llawer iawn mwy o waith nad oedd wedi'i raglennu na'r disgwyl, ac mae'r Gwasanaethau Tai'n amcangyfrif gorwariant o £1,382k ar hyn o bryd.

**9.3** Gwariant Risg Tân – Bwriedir gwario'r gyllideb o £500k ar sicrhau cydymffurfiaeth â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2005. Bydd y mesurau arfaethedig yn ymwneud yn bennaf â gosod drysau tân 1 awr (FD60) newydd mewn fflatiau ac uwchraddio systemau larymau tân a goleuadau argyfwng mewn blociau o fflatiau. Gwahoddwyd tendrau i adnewyddu drysau tân a dyfarnwyd y contract yn ystod 2024/25, ac roedd gwariant o £212k erbyn diwedd chwarter 3. Os yw'r drysau newydd yn cael eu cyflenwi ar amser, mae'r Gwasanaethau Tai yn rhagweld ar hyn o bryd y caiff y gyllideb hon ei defnyddio'n llawn.

**9.4** Gwariant ar Addasiadau Sector Cyhoeddus - Mae'r Gwasanaethau Tai yn disgwyl i'r galw am addasiadau canolig a mawr aros yn gyson, a bydd y gyllideb a ddyrannwyd o £500k yn cyllido gwaith megis gosod lifftiau grisiau, cawodydd â mynediad gwastad, rampiau ac estyniadau. Y gwariant gwirioneddol ar ddiwedd chwarter 3 oedd £325k, ac mae ymrwymiad pellach o £178k wedi'i gadarnhau. Mae'r Gwasanaeth Tai'n rhagweld y bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod 2025/26.

**9.5** Gwariant Perfformiad Ynni - Fel yr adroddwyd yn flaenorol, dechreuodd y Gwasanaethau Tai weithio ar raglen 5 mlynedd ar gyfer darparu mesurau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio yn y tymor hwy yn ystod chwarter 4 2024/25. Yn ystod chwarter 3, gwelwyd cynnydd cadarnhaol ar y contract, sy'n cynnwys, yn bennaf, gosod systemau Solar PV a systemau Storio Batris ar draws y stoc dai, ac mae'r Gwasanaethau Tai wedi neilltuo cyllideb o £3,300k ar gyfer y gwelliannau effeithlonrwydd ynni hyn yn ystod 2025/26. Ar ddiwedd chwarter 3, roedd £2,321k wedi'i wario. Yn ystod 2025/26, mae'r rhaglen hon wedi denu cefnogaeth ariannol gwerth £2,776k trwy Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru (LIC). Mae'r Gwasanaeth Tai'n disgwyl i'r gyllideb gael ei defnyddio'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio cyllid y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn llawn, mae risg y gallai'r gwariant gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn fod yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd.

**9.6** Gwariant Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd – Dyrannwyd cyllideb gwerth cyfanswm o £3,000k ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw traddodiadol a gynlluniwyd, ac mae'n cynnwys ymrwymiad a ddygwyd ymlaen ar gyfer cynlluniau a ddyfarnwyd yn 2024/25 yr oedd gwaith arnynt wedi dechrau'n barod ar safle. Mae'r ymrwymiad a ddygwyd ymlaen yn ymwneud yn bennaf â pharhau â gwaith yn Nhan y Bryn, Fali, a Chilgaint Morrison, Caergybi, lle'r oedd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau'n ymarferol yn ystod chwarter 1. Roedd y gwaith yn y Fali wedi'i gwblhau'n ymarferol yn ystod chwarter 3, ac fe wnaeth y Gwasanaethau Tai roi contract arall ar dendr ar gyfer Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd ar gyfer 20 eiddo mewn gwahanol leoliadau yn ystod chwarter 3. Llwyddwyd i ddyfarnu'r contract ac, felly, mae'r gyllideb ar gyfer 2025/26 wedi'i hymrwymo'n llawn. Roedd £1,233k wedi'i wario erbyn diwedd chwarter 3. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaethau Tai yn amcangyfrif tanwariant o £1.7m yn y gyllideb.

**9.7** Gwariant ar Waith Amgylcheddol – Mae cyllideb gwerth £500k wedi'i ddyrannu ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn ystod 2025/26. Bydd cyfran o'r gyllideb hon yn cael ei defnyddio i barhau â'r gwaith dymchwel rhai garejys a gynlluniwyd yn Llangefni, Moelfre ac Amlwch, sef garejys nad yw'n ymarferol eu cadw bellach. Mae'r Gwasanaethau Tai'n cadarnhau bod tendrau wedi cael eu cyflwyno a bod contract wedi'i ddyfarnu ar gyfer dymchwel y garejys hyn yn ystod chwarter 2. Paratoir tendr pellach yn ystod chwarter 4 ar gyfer garejys a glustnodwyd i'w dymchwel yn ardal Caergybi. Nid yw'r Gwasanaethau Tai'n disgwyl unrhyw wariant sylweddol ar uwchraddio gweithfeydd trin yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac mae'n rhagweld tanwariant o £200k.

**9.8** Gwariant Contract Gwres Canolog - Yn ystod chwarter 1, roedd y gwaith ar gontract ar gyfer adnewyddu boeleri a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi'i gwblhau'n ymarferol. Mae'r Gwasanaethau Tai wedi dyrannu cyllideb gyfalaf o £200k ar gyfer 2025/26, a'r gwariant ar ddiwedd chwarter 3, yn cynnwys ymrwymiadau, oedd £104k. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddyfarnu unrhyw gontractau mawr pellach yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac mae'r Gwasanaethau Tai'n disgwyl tanwariant o £96k yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

**9.9** Adnewyddu Fflyd – Mae'r gyllideb yn dyrannu swm o £650k ar gyfer rhaglen dreigl er mwyn adnewyddu fflyd gerbydau'r UCChA (Uned Cynnal a Chadw Adeiladau), yn bennaf y faniau a ddefnyddir gan weithwyr. Derbyniwyd 10 cerbyd newydd yn ystod chwarter 3, a chyfanswm y gwariant oedd £293k. Archebwyd 10 cerbyd arall, ac mae swm o £395k wedi cael ei ymrwymo i dalu amdanynt.

**9.10** Prynu Eiddo a Datblygu Eiddo Newydd - Mae cyllideb o £10,738k wedi'i ddyrannu ar gyfer gweithgareddau sy'n cynyddu stoc rhentadwy y CRT.

- **Prosiectau a gwblhawyd neu sydd bron â'u cwblhau**

  Hyd at chwarter 3, roedd cyfanswm o 29 uned wedi'u hychwanegu at y stoc y gellir eu gosod. Tai newydd eu datblygu yn Stad y Bryn, Llanfaethlu oedd yr unedau hyn, yn ogystal ac eiddo oedd wedi cael eu prynu a'u hadnewyddu gan y CRT. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygiadau newydd yng Nghae Braenar, Caergybi a safle hen Ysgol Niwbwrch ac mae disgwyl iddynt ychwanegu 23 ac 14 uned, yn y drefn honno, at y stoc o dai y gellir eu gosod yn ystod 2026/27.

- **Datblygiadau Eraill**

  Mae dau dŷ newydd yn cael eu datblygu gan ddatblygwr allanol ym Mharc y Coed, Llangefni.

- **Cydweithio â Gwasanaethau Cymdeithasol**

  Mae'r CRT yn cydweithio â Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ar nifer o brosiect sydd ar waith. Mae'r gwaith o ddatblygu cyfleuster gofal ychwanegol ym Mhorthaethwy yn wynebu oedi ond mae disgwyl i rywfaint o waith gael ei wneud yn 2025/26. Yn ogystal, mae pedwar eiddo wedi cael eu prynu ac maent yn cael eu datblygu er mwyn diwallu anghenion Gwasanaethau Cymdeithasol.

- **Prynu ac Adnewyddu Eiddo**

  Mae gwaith yn 2025/26 yn canolbwyntio ar adnewyddu eiddo oedd wedi cael eu prynu'n barod, ac mae swm o £2,370k wedi'i ddyrannu er mwyn cyllido gwaith ar 15 uned fydd yn cael eu hychwanegu at y stoc o dai y gellir eu gosod yn ystod y flwyddyn. Er gwaetha'r oedi, mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ac mae disgwyl i'r swm llawn gael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

  Derbyniwyd caniatâd i brynu pum eiddo yn ystod chwarter 1, ac mae 5 eiddo arall yn cael eu prynu, ar ôl derbyn dyraniad grant ychwanegol o dan y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol gan LlC (TACP). Gan fod disgwyl i'r rhaglen TACP barhau yn y dyfodol, mae'r tîm datblygu yn asesu cyfleoedd pellach ar hyd a lled Ynys Môn.

- **Prosiectau newydd y mae gwaith cychwynnol yn cael ei wneud arnynt neu brosiectau sydd ar y gweill nad ydynt wedi derbyn caniatâd cynllunio eto**

  Mae gwaith cychwynnol yn cael ei wneud ar nifer o brosiectau, sef datblygiadau ym Mhlas Penlan yn Llangefni, Maes Mona yn Amlwch a safle hen Ysgol Corn Hir yn Llangefni. Mae prosiectau sydd ar y gweill ond nad ydynt wedi derbyn caniatâd cynllunio eto yn cynnwys gwaith datblygu ac ailddatblygu ym Maes William Williams yn Amlwch, Tan y Foel yn Llannerch-y-medd, Ysgol y Parc yng Nghaergybi a Phencraig Mansions yn Llangefni. Dyrannwyd cyllideb o £300k yn 2025/26 ar gyfer gwaith yn gysylltiedig ag asesu potensial y safleoedd hyn ar gyfer prosiect datblygu yn y dyfodol; rhagwelir gwariant o thua £215k erbyn diwedd y flwyddyn.

  Bydd pob prosiect newydd yn cael ei asesu'n ariannol a'i gymeradwyo yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor.

**10. Balans y CRT**

**10.1** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £7,976k. Roedd y gyllideb yn caniatáu ar gyfer defnyddio £6,820k o'r balans hwn, gan adael balans o £1,155k yn y gronfa wrth gefn, sef yr isafswm balans fel y nodir yng Nghynllun Busnes y CRT. Mae hyn gyfystyr â 5% o'r gyllideb incwm rhenti anheddau ar gyfer 2025/26.

**11. Benthyciadau'r CRT**

**11.1** Ar ôl addasu'r gyllideb gyfalaf a grantiau cyfalaf, y diffyg refeniw / cyfalaf net a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn yw £8,436k. Bydd hyn yn cael ei gyllido gan £6,820k o gronfa wrth gefn y CRT a £1,616k o fenthyciadau allanol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio, gydag adroddiadau eraill, i lunio cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Bydd yr effaith ar anghenion hir dymor yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| **2** | A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy. | Amherthnasol |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Mae'r Gwasanaethau Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'u tenantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol. |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| **E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad. Mae unrhyw sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **2** | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried a'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **4** | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| **5** | Eiddo | Amherthnasol |
| **6** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| **7** | Caffael | Amherthnasol |
| **8** | Sgriwtini | Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid yn derbyn adroddiad ar ganlyniadau adroddiadau monitro chwarterol y CRT. |
| **9** | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A - Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd chwarter 3 2025/26
- Atodiad B - Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd chwarter 3 2025/26
- Atodiad C - Cynlluniau cyfalaf adeiladu eiddo newydd a rhagolygon hyd at ddiwedd chwarter 3 2025/26

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2025-2054 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2025)

| **CYLLIDEB CYFRIF REFENIW TAI 2025/26** | | | | | | | | | **ATODIAD A** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRT** | | **Cyllideb Cyfredol 2025/26** | **Cyllideb a Broffilwyd** | **Gwariant / (Incwm) yn Ch3** | **Amrywiant yn Ch3** | **Rhagolwg Diwedd Blwyddyn yn Ch3** | **Amrywiant Diwedd Blwyddyn** | **Rhagolwg Amrywiant yn Ch2** | **Newid ers Rhagolwg Ch2** |
| | | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Incwm** | | | | | | | | | |
| Incwm Rhent | | (23,398,090) | (17,829,345) | (17,696,858) | 132,487 | (23,341,356) | 56,734 | 59,682 | (2,949) |
| Taliadau Gwasanaeth | | (247,090) | (188,283) | (195,444) | (7,161) | (254,251) | (7,161) | - | (7,161) |
| Incwm Arall | | (270,950) | (232,889) | (271,074) | (38,185) | (338,915) | (67,965) | (59,626) | (8,339) |
| **Cyfanswm Incwm** | | **(23,916,130)** | **(18,250,517)** | **(18,163,376)** | **87,141** | **(23,934,522)** | **(18,392)** | **56** | **(18,448)** |
| | | | | | | | | | |
| **Gwariant** | | | | | | | | | |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw | | 4,237,650 | 3,178,252 | 2,834,500 | (343,752) | 4,267,302 | 29,652 | 55,464 | (25,811) |
| | Gwaith Trwsio Ymatebol | | | 1,470,909 | | 3,075,330 | - | - | - |
| | Gwaith Cynlluniedig a Chylchol | | | 123,480 | | 198,480 | - | - | - |
| | Anheddau Gwâg | | | 1,240,110 | | 993,492 | - | - | - |
| Gwasanaethau a Rennir a rhai yr ailgodir tâl amdanynt | | 961,950 | 822,558 | 775,059 | (47,499) | 937,523 | (24,427) | (50,733) | 26,307 |
| Costau Gweithwyr Gweithredol | | 2,391,820 | 1,791,618 | 1,543,824 | (247,794) | 2,208,995 | (182,825) | (187,351) | 4,526 |
| Gorbenion a Gwariant Arall | | 647,990 | 459,087 | 510,914 | 51,827 | 708,571 | 60,581 | (8,899) | 69,480 |
| **Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | **8,239,410** | **6,251,515** | **5,664,297** | **(587,218)** | **8,122,391** | **(117,019)** | **(191,520)** | **74,502** |
| | | | | | | | | | |
| **Goruchwylio a Rheoli** | | | | | | | | | |
| | Gweinyddu Rhenti | 501,530 | 375,631 | 346,902 | (28,729) | 460,297 | (41,233) | (12,472) | (28,761) |
| | Cyfranogiad a Chefnogaeth Tenantiaid | 914,300 | 688,283 | 622,858 | (65,425) | 844,860 | (69,440) | (29,332) | (40,108) |
| | Rheolaeth Stadau | 768,290 | 575,551 | 521,441 | (54,110) | 730,271 | (38,019) | (37,362) | (658) |
| | Datblygiadau | 260,190 | 194,982 | 201,485 | 6,503 | 270,475 | 10,285 | 35,019 | (24,734) |
| | Staff Rheoli a Thechnegol | 1,821,650 | 1,325,113 | 1,233,371 | (91,742) | 1,660,843 | (160,807) | (112,537) | (48,269) |
| | Cefnogaeth Busnes | 1,632,820 | 1,199,586 | 1,217,906 | 18,320 | 1,521,304 | (111,516) | (62,808) | (48,708) |
| **Cyfanswm Goruchwylio a Rheoli** | | **5,898,780** | **4,359,146** | **4,143,962** | **(215,184)** | **5,488,050** | **(410,730)** | **(219,492)** | **(191,238)** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Gweithrediadau** | | **(9,777,940)** | **(7,639,856)** | **(8,355,117)** | **(715,261)** | **(10,324,081)** | **(546,141)** | **(410,957)** | **(135,184)** |
| | | | | | | | | | |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | | | | |
| Costau Cyllido a Darpariaeth Drwg Dyledion | | 2,618,800 | - | 7,080 | 7,080 | 2,625,880 | 7,080 | 7,080 | - |
| Ailgodi Tâl o Wasanaethau Canolog | | 842,820 | - | - | - | 842,820 | - | - | - |
| Ailgodi Tâl o Wasanaethau Tai | | 25,130 | - | - | - | 25,130 | - | - | - |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | **3,486,750** | **-** | **7,080** | **7,080** | **3,493,830** | **7,080** | **7,080** | **-** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm (Gwarged) / Diffyg Refeniw** | | **(6,291,190)** | **(7,639,856)** | **(8,348,037)** | **(708,181)** | **(6,830,251)** | **(539,061)** | **(403,877)** | **(135,184)** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfrif Gwariant Cyfalaf** | | | | | | | | | |
| Gwariant Cyfalaf | | 24,870,814 | - | 15,703,769 | - | 24,006,775 | (864,039) | (2,465,143) | 1,601,104 |
| Grantiau Cyfalaf Derbyniadwy | | (8,740,037) | - | (8,740,037) | - | (8,740,037) | - | - | - |
| Cyfraniadau Eraill | | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm (Gwarged) / Diffyg Cyfalaf** | | **16,130,777** | **-** | **6,963,732** | **-** | **15,266,738** | **(864,039)** | **(2,465,143)** | **1,601,104** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyllidir Diffyg Cyfalaf Gan** | | | | | | | | | |
| Gwarged Refeniw | | (6,291,190) | - | - | - | (6,830,251) | (539,061) | (403,877) | (135,184) |
| Cronfa Wrth Gefn CRT | | (6,820,303) | - | - | - | (6,820,303) | - | 632,373 | (632,373) |
| Benthyca Digefnogaeth | | (3,019,284) | - | - | - | (1,616,184) | 1,403,100 | 2,236,647 | (833,547) |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllido Gwariant Cyfalaf** | | **(16,130,777)** | **-** | **-** | **-** | **(15,266,738)** | **864,039** | **2,465,143** | **(1,601,104)** |
| | | | | | | | | | |
| Balans Agoriadol CRT | | (7,975,679) | - | - | - | (7,975,679) | - | - | - |
| (Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa wrth Gefn CRT | | 6,820,303 | - | - | - | 6,820,303 | - | (632,373) | 632,373 |
| **Balans Cau Cronfa wrth Gefn CRT** | | **(1,155,376)** | **-** | **-** | **-** | **(1,155,376)** | **-** | **(632,373)** | **632,373** |

**ATODIAD B**

## CYFRIF REFENIW TAI – CYLLIDEB CYFALAF 2025/26

| | Cyllideb Flynyddol 2025/26 | Gwariant Ch3 | Rhagolwg Diwedd Blwyddyn | Amrywiant Diwedd Blwyddyn | Rhagolwg Amrywiant yn Ch2 | Newid o Rhagolwg Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Contract Gwres Canolog | 200,000 | 89,190 | 104,000 | (96,000) | (96,000) | - |
| Contract Cynnal a Chadw a Gynllluniwyd | 3,000,000 | 1,233,082 | 1,300,000 | (1,700,000) | (1,000,000) | (700,000) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 3,300,000 | 2,320,944 | 3,300,000 | - | - | - |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 98,488 | 300,000 | (200,000) | (200,000) | - |
| Prynu Eiddo a Datblygu Eiddo Newydd | 10,737,814 | 5,531,712 | 10,449,902 | (287,912) | (1,169,143) | 881,231 |
| Addasiadau'r Sector Cyhoeddus | 500,000 | 325,215 | 500,000 | - | - | - |
| Risg Tân | 500,000 | 212,523 | 500,000 | - | - | - |
| SATC | 1,483,000 | 1,803,991 | 2,515,000 | 1,032,000 | - | 1,032,000 |
| Rhaglen Amnewid Ceginau | 4,000,000 | 3,795,438 | 4,350,000 | 350,000 | - | 350,000 |
| Adnewyddu Fflyd | 650,000 | 293,186 | 687,873 | 37,873 | - | 37,873 |
| **Cyfanswm** | **24,870,814** | **15,703,769** | **24,006,775** | **(864,039)** | **(2,465,143)** | **1,601,104** |

**ATODIAD C**

**CYLLIDEB DATBLYGIAD NEWYDD 2025/26**

| Cynlluniau / Prosiectau | Nifer o Unedau Ychwanegol | Cyllideb 2025/26<br>£ | Gwariant Ch3<br>£ | Rhagolwg Diwedd Blwyddyn<br>£ | Rhagolwg Amrywiant yn Ch2<br>£ | Newid o Rhagolwg Ch2<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Anheddau Newydd eu hadeiladu | | | | | | |
| Safle Hen Ysgol Niwbwrch | 14 | 1,427,530 | 311,410 | 1,427,530 | 1,427,530 | - |
| Cae Braenar, Caergybi | 23 | 1,535,707 | 292,523 | 1,535,707 | 1,535,707 | - |
| Parc y Coed, Llangefni, Cam 2 | 2 | 293,200 | - | 293,200 | 293,200 | - |
| Stad y Bryn, Llanfaethlu | 10 | 562,736 | 278,381 | 562,736 | 562,736 | - |
| Plas Alltran, Caergybi | 4 | - | - | - | - | - |
| | | | | | - | - |
| Prynu Eiddo Cyfredol | | | | - | - | - |
| Prynu | 5 | 1,438,356 | 657,030 | 1,438,356 | 2,312,356 | (874,000) |
| Adnewyddu | 15 | 2,370,000 | 479,157 | 2,370,000 | 1,786,142 | 583,858 |
| | | | | | - | - |
| Cydweithio â Gwasanaethau Cymdeithasol | 4 | 600,648 | 222,983 | 600,648 | 701,000 | (100,352) |
| Cynllun Gofal Ychwanegol Aethwy | 73 | 867,637 | 26,719 | 867,637 | 500,000 | 367,637 |
| | | | | | - | - |
| Prosiectau yn y Cyfnod cyn Datblygu | | 300,000 | 9,072 | 300,000 | 100,000 | 200,000 |
| **Cyfanswm** | **150** | **9,395,814** | **2,277,275** | **9,395,814** | **9,218,671** | **177,143** |